

❖ YR ADFENT - GOLEUNI A GOBAITH

Darlleniad 1: Luc 12: 35–48**Darlleniad 2: Salm 67**

Duw hollalluog, sanctaidd a thrugarog wyt ti, yr hwn sy'n ymweld â'th blant mewn goleuni a gobaith. Llewyrcha dy wyneb arnom a thrugarha wrthym, dyrchafa dy wyneb tuag atom a rho i ni dy dangnefedd. Tywys ni unwaith yn rhagor drwy'r wythnosau sydd yn arwain at ŵyl y Geni. Gad inni ddeall neges yr Adfent er mwyn inni adnabod y ffordd sy'n arwain at waredigaeth dy holl blant. Boed i ni, yng ngeiriau'r Salmydd, arwain ein myfyrdodau at ddeall cyflawn ohonot ti:

'Bydded i'r bobloedd dy foli, O Dduw,
bydded i'r holl bobloedd dy foli di.
Bydded i'r cenhedloedd lawenhau a gorfoleddu,
oherwydd yr wyt ti'n barnu pobloedd yn gywir,
ac yn arwain cenhedloedd ar y ddaear.'

Diolch felly am dy arweiniad i ni heddiw yng Nghymru. Er mai cenedl fechan ydym mae yma dystiolaeth i waith a chenadwri dy seintiau fel y daethost gynt i ddwyn gobaith a goleuni i'n byd. Tyrdd heddiw at bawb sydd mewn angen am dy ras a'th gariad, dy gwmni a'th gysur; gwna dy eglwysi'n fyw ac yn effro i anghenion dy bobl ymhob man; helpa ni i gyflawni dy waith ac i faddau pob diffyg a bai drwy gariad Iesu Grist. Cyfnod o ddisgwyl a pharatoi yw'r Adfent. Trwy gyfrwng y Beibl, arwain ni i ddeall drwy ddarllen dy fwriad a'th ewylllys ar gyfer ein cenedl.

Trwy weledigaeth y proffwyd yn cyhoeddi dyfodiad yr Arglwydd, wele ninnau hefyd yn llawn gobaith a ffydd y bydd yr holl baratoi yn ystod yr Adfent yn dwyn ffrwyth a bendith. Y mae gobaith yr Adfent yn dod â ni'n nes mewn ysbryd a gwaredigaeth yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a orchfygodd bechod ac angau. Cytunwn yn llwyr â'r Pêr Ganiedydd pan ddywedodd,

'Ymhlith holl ryfeddodau'r nef,
hwn yw y mwyaf un –
gweld yr anfeidrol, ddwyfol Fod
yn gwisgo natur dyn.'

Clyw gri ein calonnau wrth i ni yn wylaidd ofyn i ti ein harwain yng ngrym yr Ysbryd Glân i fod â'n calonnau'n agored i dderbyn Iesu Grist i'n bywyd.

Diolchwn i ti, ein Tad nefol, am dy gariad tuag atom yn danfon Iesu Grist i'n byd. Boed inni deimlo llawenydd ei ddyfodiad ef i'n byd. Boed inni deimlo effaith ei gyfeillgarwch a'i arweiniad ar ein bywyd fel y gallwn ddweud:

'Pan allan awn i'r byd,
I waith a'i flinder croes,
Bydd di, O Dduw, gerllaw bob pryd
I'n nerthu drwy ein hoes.'

Diolchwn i ti am dy rodd fwyaf i'n byd yn dy uniganedig Fab, Iesu Grist. Diolchwn am y cwbl a gyflawnaist trwyddo. Cofiwn am dy anrheg werthfawrocaf i'n byd, y baban a aned mewn preseb ym Methlehem Jwda. Wrth i ni ganu carolau yn yr wythnosau nesaf, caniatâ i bob un yn y byd ganu cân o foliant i ti. Cynorthwya ni ynghanol yr Adfent i roddi ein calonnau iddo ef, a gofynnwn i ti ein helpu i fyw'n llwyr i'n Harglwydd Iesu Grist. Credwn dy fod yn falch ein bod yn dy geisio a gwyddom yn dda dy fod yn chwennych gwneud dy gartref yn ein calon. Pa anawsterau a phroblemau bynnag sy'n ein hwynebu yr awr hon, credwn nad edrych ar ein corff a wnei, oherwydd er dy fod yn bwriadu i bawb gael corff glân a di-nam, nid pawb a gaiff. 'Trig o fewn ein calon, Frenin nef a llawr', fel y byddo ein hysbryd a'n teimladau, ein bwriadau a'n gweithredoedd yn iach a di-nam.

Diolchwn i ti, ein Tad tirion, am bob daioni ac yn bennaf am y daioni pennaf a roddwyd inni, sef Iesu Grist. Diolchwn i ti am yr esiampl brydferth a dderbynasom ganddo; cynorthwya ninnau i garu ei ddisgeidiaeth a dilyn esiampl ei ddaioni ef yn ein bywyd ac yn ein heglwysi. Llawenychnwn fod dy Eglwys yn uno pobl yn un teulu mawr i ti dros y byd. Gweddiwn ar i'r byd roi cyfle i'th Eglwys di ddangos y cariad sydd yn Iesu Grist, a boed i ninnau ein rhoddi ein hunain yn dy law fel y gallwn dy wasanaethu'n well. Amen.

Carys Ann